Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Tachwedd 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU ANIFEILIAID A CHYNHYRCHION ANIFEILIAID (MEWNFORIO AC ALLFORIO) (CYMRU) (DIWYGIO) 2007

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu y bu'n rhaid torri'r rheol 21 niwrnod er mwyn dod â'r Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2007 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn ar 15 Tachwedd 2007, cawsant eu cyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno ar 16 Tachwedd 2007, a disgwylir iddynt ddod i rym ar 17 Tachwedd 2007.

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi Rheoliad EC Cymru 1266/2007 ar waith, sy'n gosod rheolau gweithredu ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75/EC ynghylch rheoli, monitro, gwyliadwriaeth a chyfyngiadau ar symud rhywogaethau penodol o anifeiliaid a allai gael haint y Tafod Glas. Dyma brif effeithiau'r Rheoliadau hyn:

- darparu camau gorfodi ar unwaith i leihau'r risg o ledu'r Tafod Glas i Aelod-wladwriaethau eraill a thrydydd gwledydd. (Er na cheir allforio anifeiliaid cnoi cil (e.e. gwartheg, defaid, ceirw) ar hyn o bryd yn sgil y cyfyngiadau clwy'r traed a'r genau, gellir allforio plasm cenhedlu (semen, ofa ac embryonau);
- sicrhau bod tystysgrif iechyd yn nodi datganiad sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â rheoliad yr EC yn cael ei anfon gyda phob anifail a phlasm cenhedlu sy'n cael eu symud i Aelod-wladwriaeth neu drydedd wlad arall.

Mae'r Rheoliadau yn parhau i reoleiddio mewnforio a chludo anifeiliaid byw a'u cynnyrch. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd allforio unrhyw beth sydd wedi'i wahardd rhag ei allforio gan y Rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Gohebiaeth.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Caiff yr amodau ar gyfer allforio i Drydydd Gwledydd eu pennu gan y ddwy ochr felly bydd yn rhaid i unrhyw gynnyrch a all gael eu hanfon o Gymru o dan y Rheoliadau hyn hefyd fodloni'r amodau mewnforio a bennir gan y wlad sy'n eu mewnforio. Yn ymarferol, nid yw'r rhan fwyaf o wledydd sy'n mewnforio yn derbyn cynnyrch o'r DU ar hyn o bryd.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau ym Mhenderfyniad y Comisiwn wrth i sefyllfa'r Tafod Glas ddatblygu, a byddant yn cael eu dirymu pan fydd rheolaethau'r Gymuned yn cael eu llacio.

Mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar unwaith gan fod Rheoliad EC wedi bod yn gymwys i Aelod-wladwriaethau ers 1 Tachwedd 2007. Disgwylir i Reoliadau cyfatebol ddod i rym yn Lloegr a'r Alban ar 17 Tachwedd 2007. Hefyd disgwylir i ddeddfwriaeth debyg gael ei gwneud yn fuan yng Ngogledd Iwerddon. Felly, er mwyn sicrhau cysondeb o ran camau gorfodi ar draws y DU, mae'n rhaid torri'r rheol 21 niwrnod, fel y gall y Rheoliadau ddod i rym ar unwaith.

Gan fod yn rhaid cyflwyno'r Rheoliadau yng Nghymru ar unwaith, mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi penderfynu na fyddai'n ymarferol o fewn rheswm iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog o fewn yr amserlen. Bydd cyfieithiad Cymraeg o'r Rheoliadau, serch hynny, yn barod maes o law.

Nid oes proses ymgynghori wedi mynd rhagddi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i wneud ychwaith yn sgil amserlen dynn yr Offeryn. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi ac mae hwn wedi cael ei osod, ar y cyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.